

<p>GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (STRYD FAWR, ABERTAWE) 2009</p> <p>Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Caffael Tir 1981</p>	<p>THE WELSH MINISTERS (HIGH STREET, SWANSEA)</p> <p>COMPULSORY PURCHASE ORDER 200</p> <p>The Welsh Development Agency Act 1975 (as amended)</p> <p>and the Acquisition of Land Act 1981</p>
<p>Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn "yr awdurdod caffael") yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn -</p>	<p>The Welsh Ministers (in this order called "the acquiring authority") make the following order-</p>
<p>1 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adran 21A o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 ac Atodlen 4 iddi, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion cynllun adfywio defnydd cymysg yn Stryd Fawr Abertawe sy'n cynnwys defnydd preswylio, defnydd hamdden, meysydd parcio i swyddfeydd a defnyddiau cysylltiedig eraill a gwaith arall ar dir cyhoeddus.</p>	<p>1 Subject to the provisions of this order, the acquiring authority is, under section 21A and Schedule 4 to the Welsh Development Agency Act 1975, hereby authorised to purchase compulsorily the land and the new rights over land described in paragraph 2 for the purpose of a mixed use regeneration scheme in High Street Swansea comprising residential use retail leisure office car parking and other ancillary uses along with public realm works.</p>
<p>2 (1) Y tir yr awdurdodir ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ar y map y paratowyd dau gopi ohono, sydd wedi ei selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio "Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Stryd Fawr, Abertawe) 200-"</p> <p>(2) Caiff yr hawliau newydd dros dirsydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn eu disgrifio yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ar y map a enwyd.</p>	<p>2 (1) The land authorised to be purchased compulsorily under this order is the land described in the Schedule hereto and delineated and shown coloured pink on a map prepared in duplicate, sealed with the common seal of the acquiring authority and marked "Map referred to in The Welsh Ministers (High Street Swansea) Compulsory Purchase Order 2009".</p> <p>(2) The new rights to be compulsorily purchased over land under this order are described in the Schedule and the land is shown coloured blue on the said map.</p>
<p>3 Ymgorfforir drwy hyn Rannau 2 a 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau</p>	<p>3 Parts 2 and 3 of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981 are hereby incorporated with this Order subject to the modifications that</p>

<p>canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymmeriad fel cyfeiriadau at y datblygiad a godwyd neu sydd i'w godi ar y tir yr awdurdodir ei brynu neu ar y tir yr awdurdodir prynu'r hawliau drosto yn ôl y digwydd.</p>	<p>references therein to the undertaking shall be construed as references to development constructed or to be constructed on the land authorised to be purchased or on the land over which rights are authorised to be purchased as the case may be.</p>
<p>CYFLAWNWYD FEL GWEITHRED drwy gymhwysyo sêl Gweinidogion Cymru.</p>	<p>EXECUTED AS A DEED by applying the seal of the Welsh Ministers.</p>
<p>DILYSIR cymhwysiad sêl GWEINIDOGION CYMRU gan PATRICIA M CLARKE Uwch-gyfreithiwr sydd wedi'i hawdurdodi'n briodol at y diben hwnnw gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol drwy awdurdod Gweinidogion Cymru o dan adran 90(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p>	<p>The application of the seal of the Welsh Ministers is <u>AUTHENTICATED</u> by PATRICIA M CLARKE Senior Lawyer who is duly authorised for that purpose by the Director of Legal Services by authority of the Welsh Ministers under section 90(2) of the Government of Wales Act 2006.</p>
<p>Llofnodwyd.....</p>	<p>Signed.....</p>
<p>Enw.....</p>	<p>Name.....</p>
<p>Teitl y Swydd....Uwch-gyfreithiwr.....</p>	<p>Job Title....Senior Lawyer.....</p>
<p>Dyddiedig y 21dydd o Mai 2009</p>	<p>Dated 21 day of May 2009</p>